Dan embargo tan 00.01 5 Chwefror 2024

# Mae Amser Rhigwm Mawr Cymru BookTrust Cymru yn ôl i helpu plant yng Nghymru i fwynhau manteision rhigymu'n ddwyieithog

- **Bydd miloedd o blant yn gallu rhannu rhigymau, cerddi a straeon mewn mwy na 500 o feithrinfeydd, ysgolion, llyfrgelloedd a chartrefi ledled Cymru.**
- **Ariennir Amser Rhigwm Mawr Cymru gan Lywodraeth Cymru i gefnogi iaith a datblygiad cymdeithasol plant, eu cwlwm teuluol a'u perthynas â darllen.**
- **Gwahoddir teuluoedd i gymryd rhan gartref gan ddefnyddio rhigymau, cerddi a chaneuon dwyieithog newydd sydd ar gael ar wefan BookTrust Cymru: gyda cherdd a gyfansoddwyd yn arbennig gan yr awdur plant a chyn Fardd Plant Cymru, Casia Wiliam.**

**05/02/2024** – Mae BookTrust Cymru, yr elusen ddarllen i blant, yn annog teuluoedd, ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar ledled Cymru i ymuno yn **Amser Rhigwm Mawr Cymru**, dathliad wythnos o hyd ar gyfer rhannu rhigymau, cerddi a chaneuon dwyieithog gyda miloedd o blant yn eu blynyddoedd cynnar.

Mae Amser Rhigwm Mawr Cymru, a ddatblygwyd gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, yn gwahodd teuluoedd o bob cwr o Gymru i brofi sut y gellir ymgorffori rhigymu a rhannu straeon yn ddwyieithog i mewn i fywyd beunyddiol – boed hynny gartref, mewn lleoliad blynyddoedd cynnar, neu yn eu cymuned leol. Mae dros 500 o leoliadau ledled Cymru wedi cofrestru i gymryd rhan yn Amser Rhigwm Mawr Cymru, sy'n digwydd o **ddydd Llun 5 Chwefror – Gwener 9 Chwefror 2024**. Ymysg y lleoliadau sy'n cymryd rhan mae meithrinfeydd, ysgolion cynradd, canolfannau plant a theuluoedd, llyfrgelloedd, gofalwyr plant, grwpiau cymunedol ac elusennau.

Drwy annog plant i fwynhau rhigymau yn ystod eu blynyddoedd cynnar, mae Amser Rhigwm Mawr Cymru'n codi ymwybyddiaeth o effeithiau cadarnhaol rhannu rhigymau dwyieithog ar lafar gyda phlant. Mae adrodd rhigymau'n gosod sylfeini ar gyfer datblygu iaith a llafaredd plant, yn ogystal â'u perthynas â darllen ar gyfer y dyfodol. Gall hefyd fod yn weithgaredd ymrwymo hwyliog, fforddiadwy ar gyfer teuluoedd, sydd yn ei dro yn helpu i gefnogi datblygiad emosiynol plant, a'u hunan-hyder.

I gefnogi dathliad eleni, mae cyn-Fardd Plant Cymru **Casia Wiliam** wedi cyhoeddi cerdd a gyfansoddwyd yn arbennig, "Trysorau Bychan", a ysbrydolwyd gan gariad ei phlant ei hun at gasglu pethau maen nhw'n dod o hyd iddyn nhw tu fas. Mae'r gerdd ar gael, ynghyd ag adnoddau, ar wefan BookTrust Cymru y gall ysgolion, meithrinfeydd a theuluoedd eu defnyddio i'w hysbrydoli i rannu rhigymau, cerddi a chaneuon dwyieithog gyda'i gilydd. Mae adnoddau eleni hefyd yn cynnwys cân ddwyieithog ar thema'r fferm gan y cerddorion **Babis Bach Babies** a stori odli ddwyieithog gan y storïwr **Tamar Eluned Williams –** y ddau beth wedi'u creu'n benodol ar gyfer Amser Rhigwm Mawr Cymru.

Gall teuluoedd a lleoliadau blynyddoedd cynnar gymryd rhan yn eu hwyl rhigymu eu hunain gartref gan ddefnyddio'r fideos a'r adnoddau y gellir eu lawrlwytho, a fydd ar gael yma: https://www.booktrust.org.uk/cy-gb/bigwelshrhymetime neu @BookTrustCymru ar X (Twitter gynt) a Facebook, gydag anogaeth i rannu pob profiad rhigymu ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Yn ôl Phil Savery, Rheolwr Ymgysylltu Blynyddoedd Cynnar BookTrust Cymru:**

*'Mae Amser Rhigwm Mawr Cymru yn ôl! Diolch i Lywodraeth Cymru a'n rhwydwaith o bartneriaid, bydd miloedd o blant ledled y wlad yn profi manteision rhannu rhigymau, straeon a chaneuon ar lafar yr wythnos hon. Mae ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn gwybod pa mor werthfawr yw hyn i sgiliau cyfathrebu, iaith a darllen plant, ac mae hefyd yn gyfle gwych i deuluoedd gael profiad uniongyrchol o sut mae rhannu rhigymau dwyieithog gyda'i gilydd yn ffordd gyflym, hawdd a fforddiadwy o gael hwyl gyda'n gilydd. Mae amser o hyd i gymryd rhan a dangos i ni sut mae eich plant yn ymdopi â rhigymau ac odlau. P'un a ydych chi'n darllen cerdd gyda'ch gilydd gartref neu'n cymryd rhan fel grŵp, gallwch rannu eich dathliadau Amser Rhigwm Mawr Cymru gan ddefnyddio'r hashnod #HwylYRhigwmIBawb."*

**Meddai Casia Wiliam, bardd a chyn-Fardd Plant Cymru:**

*'Mae BookTrust Cymru'n gwneud cymaint o waith da ac yn creu adnoddau mor wych. Dwi'n teimlo'n freintiedig iawn i gael cymryd rhan yn Amser Rhigwm Mawr Cymru eleni a chreu adnodd newydd a fydd yn ysbrydoli plant ifanc ac yn eu cyflwyno i lawenydd odli. Mae fy mhlant byth a hefyd yn casglu pethau pan fyddwn ni allan, a'u hoffter o gasglu 'trysor' a ysbrydolodd fy ngherdd "Trysorau Bychan". Dwi'n gobeithio y bydd plant ledled Cymru'n ei mwynhau, ac y bydd yn peri iddyn nhw fod eisiau mynd allan i gael antur!'*

I ddysgu mwy, ewch i wefan BookTrust Cymru neu dilynwch ni ar X a Facebook @BookTrustCymru

**[DIWEDD]**

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Rose Dykins, ar press@booktrust.org.uk

**Am BookTrust:**

Rydyn ni'n cael miliynau o blant i ddarllen, yn enwedig plant o deuluoedd incwm isel neu gefndiroedd bregus. Mae plant sy'n dewis darllen ac sy'n darllen yn rheolaidd yn hapusach ac yn iachach. Maen nhw'n ffurfio rhwymau cryfach a gwell perthynas ag eraill. Maen nhw'n gwneud yn well yn yr ysgol ac maen nhw'n fwy creadigol. Maen nhw'n mwynhau mwy o lwyddiant mewn bywyd. Dyma pam rydyn ni'n gweithio gyda theuluoedd, gan eu cefnogi i ddechrau rhannu straeon a llyfrau gyda'i gilydd o'r oedran cynharaf posibl. Mae ein llyfrau, a ddetholir yn ofalus, a'n rhaglenni, sydd wedi'u hymchwilio'n dda, yn cael eu cyflwyno gan filoedd o bartneriaid lleol, gan ddod â hud darllen i blant ym mhob cymuned yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. **booktrust.org.uk**